www.xtrapapers.com

| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

CBAC WJEC

# TGAU

4278/51

## HANES
## UNED 1/UNED 2: Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad yng Nghymru a Lloegr, 1930-1951

P.M. DYDD LLUN, 3 Mehefin 2013

1 awr 15 munud

| Cwestiwn | Marc a Roddwyd |
|---|---|
| 1 | 25 |
| 2 | 15 |
| 3 | 10 |
| SAG | 3 |
| Cyfanswm | 53 |

4278 510001

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

**Atebwch BOB cwestiwn ar y papur arholiad**.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch y bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu yn yr atebion sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig, sef cwestiynau 1*(d)* a 3.

**Yn ogystal bydd eich gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 3.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

## CWESTIWN 1

**Mae'r cwestiwn hwn yn ymchwiliad i ddatblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a Lloegr ar ôl y rhyfel.** [25]

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell.

**Ffynhonnell A**



[Ffotograff o dai cyngor newydd yn cael eu hadeiladu ger Doncaster yn 1946]

*(a)* Beth mae Ffynhonnell A yn ei ddangos i chi am bolisi 'Tai i Bawb' y Blaid Lafur? [2]

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell B**



[Aneurin Bevan, y Gweinidog Iechyd, yn cwrdd â chlaf *(patient)* sy'n derbyn gofal iechyd am ddim yn un o ysbytai'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol *(NHS)* yn 1948]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B a'r hyn rydych chi'n ei wybod i egluro pam cafodd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ei sefydlu. [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

4278
510003

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell C**

Doedd gan y glowyr yng Nghymru a'u teuluoedd ddim cydymdeimlad at hen berchenogion y pyllau glo preifat. Gyda'u hanes gwael o ran diogelwch a'u perthynas wael â'u gweithwyr, doedd dim llawer o ffrindiau gan berchenogion y pyllau. Roedd gwladoli yn help i hybu *(promote)* awyrgylch fwy llwyddiannus a heddychlon ym myd diwydiant yng Nghymru.

[Kenneth Morgan, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei lyfr, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (1981)]

*(c)* I ba raddau mae Ffynhonnell C yn cefnogi'r safbwynt bod gwladoli *(nationalisation)* yn boblogaidd yng Nghymru? [5]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell CH**

> Fore dydd Llun nesaf byddwch yn dihuno/deffro mewn Prydain newydd, mewn gwladwriaeth sy'n gofalu am ei phobl chwe mis cyn iddyn nhw gael eu geni, yn darparu gofal a gwasanaethau am ddim ar gyfer eu blynyddoedd cynnar, eu haddysg, salwch, diweithdra, gweddwdod *(widowhood)* a'u hymddeoliad. A hyn i gyd gyda meddygon, deintyddion a meddyginiaethau am ddim.

[Rhan o dudalen flaen y papur newydd, *The Daily Mail*, mewn adroddiad yn sôn am ddechrau'r Wladwriaeth Les (5 Gorffennaf 1948)]

*(ch)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell CH i hanesydd sy'n astudio diwygiadau *(reforms)* y Blaid Lafur ar ôl y rhyfel?
*[Eglurwch eich ateb trwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod.]* [6]

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

4278 510005

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

Mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn rhoi safbwyntiau gwahanol am bolisïau'r llywodraeth Lafur rhwng 1945 a 1951.

**Ffynhonnell D**

Yn 1945 roedd Llafur wedi addo y byddai eu polisïau, fel gwladoli a'u polisi tai, yn gwella dyfodol economaidd Prydain. Ond mewn gwirionedd maen nhw wedi arwain at drethi uwch ac mae twf busnes wedi cael ei ddal yn ôl. Bydd pleidlais dros bolisïau Llafur yn gwneud niwed i'n dyfodol economaidd.

[Winston Churchill, Arweinydd y Blaid Geidwadol, yn siarad yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol 1950]

**Ffynhonnell DD**

Does neb yn gallu gwadu *(deny)* gorchestion *(achievements)* y llywodraeth Lafur rhwng 1945 a 1951. Cafodd cymdeithas Prydain ei gwella'n llwyr ganddi, gyda diwydiannau wedi'u gwladoli *(nationalised)* a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn darparu gofal iechyd am ddim i bawb. Cafodd tai ac addysg eu gwella hefyd.

[Derrick Murphy, hanesydd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr ar gyfer ysgolion, *Britain 1945-2007* (2008)]

*(d)* Pam mae Ffynonellau D ac DD yn rhoi safbwyntiau gwahanol am lwyddiant polisïau'r llywodraeth Lafur, 1945-1951? [8]

*[Yn eich ateb dylech gyfeirio at gynnwys y ffynonellau a'r awduron hefyd.]*

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

25

**DIWEDD CWESTIWN 1**

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

## CWESTIWN 2

**Cafodd blynyddoedd y Dirwasgiad effaith ddifrifol ar Gymru a Lloegr.** [15]

Astudiwch y ffotograff isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.




[Ffotograff o ddyn di-waith yn chwilio am waith yn y 1930au]

*(a)* Disgrifiwch Orymdaith Jarrow. [4]

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

.......................................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*(b)* Eglurwch pam symudodd llawer o bobl o Gymru i Loegr yn ystod y 1930au. [5]

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

................................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*(c)* Pa mor bwysig oedd adloniant poblogaidd yn ystod y Dirwasgiad? [6]

15

**DIWEDD CWESTIWN 2**

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

## CWESTIWN 3

**Cafodd yr Ail Ryfel Byd effaith enfawr ar fywydau pobl.** [10 + 3]

A gafodd holl bobl Cymru a Lloegr fudd *(benefit)* o'u profiad o'r Ail Ryfel Byd? [10]

> *Yn eich ateb dylech drafod:*
>
> - *y ffyrdd y cafodd pobl fudd o'r profiad o ryfel;*
> - *y ffyrdd na chafodd pobl fudd o'r profiad o ryfel.*

*Yn y cwestiwn hwn, mae marciau'n cael eu rhoi am sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir.* [3]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

10

**DIWEDD CWESTIWN 3**

**DIWEDD Y PAPUR**

SAG 3